
# Cyngor Sir Ceredigion

# Strategaeth Gaffael

# 2018 – 2022





Awdur: George Ryley
Cymeradwywyd gan y Cyngor:
Dyddiad cyhoeddi:

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **3** |
| **2.** | **Diffiniadau** | **4** |
| **3.** | **Cerrig Milltir Caffael** | **5** |
| **4.** | **Rhagair i'r Strategaeth** | **7** |
| **5.** | **Blaenoriaeth Un – Cefnogi'r Economi Leol** | **8** |
| **6.** | **Blaenoriaeth Dau – Sicrhau Llywodraethu Cadarn ac Effeithiol** | **8** |
| **7.** | **Blaenoriaeth Tri – Gwella Rheolaeth o Nwyddau a Chontractau** | **9** |
| **8.** | **Blaenoriaeth Pedwar - Cryfhau Prosesau a'r Drefn Lywodraethu** | **10** |
| **9.** | **Blaenoriaeth Pump - Sicrhau bod gan Staff Sgiliau ac Adnoddau Digonol** | **11** |
| **10.** | **Buddiannau Gweithredu'r Strategaeth** | **12** |

## 1. Cyflwyniad

Bydd bodlonrwydd y cyhoedd gyda Chyngor Sir Ceredigion yn uniongyrchol gysylltiedig â'i farn ar y gwerth am arian a gynigir gan y Cyngor. Mae cynnig gwerth am arian yn un o egwyddorion craidd caffael proffesiynol a strategol.

Mae'r Cyngor yn wynebu gwariant trydydd parti blynyddol o dros £60m er mwyn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Trwy broses gaffael strategol ofalus, caiff y gwariant hwn ei dargedu ar gynorthwyo i wireddu gweledigaeth, nodau ac amcanion y Cyngor.

Trwy'r strategaeth hon yn benodol bydd proses Gaffael Ceredigion yn sicrhau:

- Gwerth am arian drwy seilio penderfyniadau caffael ar gyfuniad priodol o ansawdd a phris.
- Gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n cael eu caffael gan roi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaethau, ac yn eu dewis iaith, drwy ymgynghori, ac ymgorffori Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) yn y contractau.
- Amgylchedd iach drwy gaffael atebion cynaliadwy a thrwy gyn-gymhwyso darpar gyflenwyr ar sail eu henw da a'u gwerthoedd mewn perthynas â chynaladwyedd.
- Y cyfraniad mwyaf posib tuag at ddatblygu cynaliadwy drwy sicrhau bod Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o brosesau Caffael.

## 2. Diffiniadau

**Rheoli yn ôl Categori** - dull strategol sy'n trefnu adnoddau caffael i ganolbwyntio ar feysydd gwario penodol. Mae hyn yn galluogi rheolwyr categorïau i ganolbwyntio'u hamser a chynnal dadansoddiad manwl o'r farchnad i gael y mwyaf o'u penderfyniadau caffael ar ran y sefydliad cyfan.

**Fforwm Caffael Ceredigion -** Grŵp sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyrff sector cyhoeddus sydd un ai wedi'u lleoli yn y Sir neu sydd â phresenoldeb lleol. Mae'r aelodau presennol yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Coleg Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Prawf Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Un Llais Cymru a Tai Ceredigion.

**Buddiannau Cymunedol** - A elwir hefyd yn Gymalau Cymdeithasol, sef mentrau sy'n dod â buddiannau i'r gymuned leol drwy gyflenwi'r contract. Mae'r buddiannau'n dod o fewn dau brif faes, sef mentrau gweithlu megis prentisiaethau, a mentrau cadwyn gyflenwi megis defnyddio is-gontractwyr lleol

**Arfau e-Gaffael :**
**Award:** Arf gwerthuso tendrau sy'n hwyluso ymarferion gwerthuso o bell, gan gofnodi sylwadau'r gwerthuswr.
**eDendroCymru:** Porth tendro ar-lein a ddefnyddir i gymhwyso cyflenwyr, derbyn tendrau, cynnal ocsiynau lleihau pris electronig, a rheoli contractau.
**GwerthwchiGymru:** Gwefan Llywodraeth Cymru a ddefnyddir i hysbysebu cyfleoedd contractio un ai ar lefel genedlaethol neu ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys cronfa ddata cyflenwyr, gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer prynwyr a chyflenwyr, a system wedi'i rheoli ar gyfer gwahodd dyfynbrisiau (Dyfynbrisiau Cyflym).
**Model Gwerthuso Tendrau** – Math o daenlen a ddatblygwyd i sicrhau proses gadarn ar gyfer gwerthuso ansawdd a phris elfennau o dendrau a gyflwynir.

**Fframwaith Mân Waith** – Y Cyngor yw sefydliad arweiniol y fframwaith cydweithredol ar gyfer y cytundeb hwn, sy'n cynnwys gwaith trydanol a mecanyddol, addurno, glanhau, cynnal a chadw tir, adeiladu cyffredinol, prosiectau adeiladu ac addasiadau anabledd. Partneriaid y Cyngor o fewn y fframwaith yw Ymddiriedolaeth Cadwgan ac aelod-sefydliadau Fforwm Caffael Ceredigion.


**Gwiriad Ffitrwydd Caffael** - Un ai archwiliad annibynnol neu hunan-archwiliad o arferion caffael, wedi'i fesur yn erbyn Model Aeddfedrwydd Caffael Llywodraeth Cymru.


**Cynllun Caffael –** Yn seiliedig ar 8 maes y Gwiriad Ffitrwydd ac yn rhan annatod o gynlluniau busnes y Gwasanaeth, mae hwn yn fodd o hwyluso gwelliant parhaus a manteisio ar y llwyddiannau.


**Gwerth ar arian** - Darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau iawn o'r ffynhonnell iawn, sydd o'r ansawdd iawn, ar yr adeg iawn, wedi'u cyflenwi i'r lle iawn ac am y pris iawn (a bennir ar sail costau oes gyfan, ac nid costau gwreiddiol yn unig).


### 3. Cerrig Milltir Caffael


Rhestrir isod rai o lwyddiannau Caffael y Cyngor yn ystod 2014 i 2018.




Arwain ar Fframwaith Mân Waith Ceredigion
Rhoi Fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar Waith
Cryfhau'r cydweithio drwy Fforwm Caffael Ceredigion
Buddiannau Cymunedol Mesuradwy yn Sgil Contractau
Strwythur Caffael Rheoli yn ôl Categori Newydd
Rheoli Nwyddau a Chontractau'n Well


Gwneud Arbedion yn Sgil Prosiect Gwariant Trydydd Parti
e-Dendro Gorfodol
Datblygu Arf e-Werthuso Newydd a'i Roi ar Waith
Diweddaru Rheolau'r Drefn Gontractio
Defnydd Cynyddol o’r Cerdyn Pryniant Cymreig
Cryfhau Prosesau a'r Drefn Lywodraethu




## 4. Rhagair i'r Strategaeth

Mae Ceredigion yn falch iawn o'i enw da o ran darparu gwasanaethau caffael o ansawdd uchel. Cafodd y Cyngor ganlyniad ardderchog yng ngwiriadau ffitrwydd caffael cenedlaethol y sector cyhoeddus, ac yn ôl yr asesiad mae'n 'Datblygu Tuag At Lefel Uwch' yn gyffredinol ac mae ar 'Lefel Uwch' o ran Strategaeth ac Amcanion Caffael. Llwyddwyd nid yn unig i gadw'r lefel hon, ond i wella arni dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae hyn yn gosod y Cyngor yn y chwartel uchaf. Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru'n cymharu'n ffafriol â meincnod sector cyhoeddus y DU, gyda chanlyniadau sy'n sylweddol well o fewn pump allan o'r saith maes a asesir.

Bydd y strategaeth gaffael hon yn datblygu gweithgarwch caffael y Cyngor ymhellach. Mae cyfnod y strategaeth yn cyd-fynd â'r strategaeth gorfforaethol ac mae'n canolbwyntio at 5 blaenoriaeth allweddol, sy'n adeiladu ar y llwyddiannau hyd yn hyn drwy:



## 5. Blaenoriaeth Un – Cefnogi'r Economi Leol

Bydd y Cyngor yn cefnogi'r economi leol drwy gamau gweithredu penodol, a rhestrir y prif rai isod, ynghyd â'r canlyniadau a ddymunir.

Camau Gweithredu er mwyn Gwella:

- Gwneud contractau a chytundebau'r fframwaith yn fwy deniadol a hygyrch i gontractwyr lleol
- Annog contractwyr haen 1af i ddefnyddio cadwyn gyflenwi leol
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflenwyr lleol o gyfleoedd fframwaith cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Darparu hyfforddiant i Fusnesau Bach a Chanolig i'w helpu i wella'u ceisiadau tendro
- Darparu prentisiaethau a chyfleoedd profiad gwaith drwy gymalau budd cymunedol o fewn contractau

Canlyniad

Mae'r economi leol yn elwa'n uniongyrchol o weithgarwch caffael y Cyngor, gan alluogi Busnesau Bach a Chanolig i dyfu a dod yn fwy cydnerth. Yn y tymor hirach, bydd busnesau newydd yn dechrau yn sgil y prentisiaethau a'r mentrau profiad gwaith, gan gyfrannu at ffyniant cyffredinol y Sir.

## 6. Blaenoriaeth Dau – Sicrhau Llywodraethu Cadarn ac Effeithiol

Ceir rhai camau penodol i gefnogi'r flaenoriaeth hon o fewn y cynllun gwella caffael, a rhestrir y prif rai isod, ynghyd â'r canlyniadau a ddymunir.

Camau Gweithredu er mwyn Gwella

- Parhau i wella sgôr Model Aeddfedrwydd Caffael y Cyngor.
- Sicrhau bod y caffael yn cydfynd â deddfwriaeth bresennol a pholisïau allweddol, er enghraifft Mesur y Gymraeg (2011).
- Herio'r angen am gaffael.
- Monitro gwariant yn ofalus i sichau gwerth am arian.
- Gweithio mewn ffordd agored i gefnogi timau Archwilio mewnol ac allanol
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol â'r holl randdeiliaid.

Canlyniadau

Bydd y caffael yn cael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol a gweithredol, sy'n trefnu ac yn deall gwariant, gan ddylanwadu ar gynllunio cynnar a dyluniad gwasanaethau, a bod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir er mwyn cyflawni'r amcanion cyffredinol.

Yn unol ag arferion rheoli da, bydd caffael, perfformiad a chanlyniadau'n cael eu monitro er mwyn ceisio gwella'n barhaus, a bydd enghreifftiau o arfer da ac arfer gwael yn cael eu rhannu mwn modd agored.

## 7. Blaenoriaeth Tri – Gwella Rheolaeth o Nwyddau a Chontractau

Ceir rhai camau gweithredu penodol i gefnogi'r flaenoriaeth hon o fewn y cynllun gwella caffael, a rhestrir y prif rai isod, ynghyd â'r canlyniadau a ddymunir.

Camau Gweithredu er mwyn Gwella

- Caffael drwy dîm canolog o weithwyr proffesiynol.
- Datblygu strategaethau nwyddau drwy Reoli yn ôl Categori e.e. defnyddio mwy o ffynonellau lleol a chaffael atebion cynaliadwy.
- Sicrhau bod y meini prawf gwerthuso a ddefnyddir yn yr ymarferion tendro'n briodol, ac yn sicrhau cydbwysedd rhwng ansawdd a phris.
- Cynnwys Buddiannau Cymunedol yn yr holl gontractau priodol.
- Gweithio gyda chyflenwyr i'w helpu i wella a dod yn fwy cynaliadwy.

Canlyniadau

Bydd darparu gwerth ychwanegol drwy'r polisi Buddiannau Cymunedol yn ystyriaeth anhepgor wrth gaffael. Trwy'r strategaeth hon bydd y Cyngor yn cyflawni'r egwyddorion datblygu cynaliadwy cenedlaethol, gan wneud gwahaniaeth i bobl Ceredigion. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ystyrir Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posib o gostau oes gyfan, yn nhermau nid yn unig sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r Cyngor, ond hefyd o ran y budd i'r gymdeithas a'r economi, gan sicrhau'r niwed lleiaf i'r amgylchedd yn ogystal.

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg, gan sicrhau bod cyfleoedd contractio'n agored i bawb, ac nad yw cyflenwyr lleol llai o faint yn cael eu hatal rhag ennill contractau ar lefel unigol, fel rhan o gonsortiwm, neu drwy rolau o fewn y gadwyn gyflenwi.

## 8. Blaenoriaeth Pedwar – Cryfhau Prosesau a'r Drefn Lywodraethu

Ceir rhai camau penodol i gefnogi'r flaenoriaeth hon o fewn y cynllun gwella caffael, a rhestrir y prif rai isod, ynghyd â'r canlyniadau a ddymunir.

Camau gweithredu er mwyn gwella

- Mabwysiadu a sefydlu dulliau caffael cyffredin ac arfer gorau.
- Gwneud y defnydd gorau o arfau e-Gaffael.
- Sicrhau archebion sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol.
- Annog cyflenwyr i roi adborth ar hwylustod y broses.
- Talu pob anfoneb gywir yn brydlon, a rhai contractwyr bach mor fuan â phosib ar ôl eu derbyn.

Canlyniad

Prosesau caffael yn parhau i fod yn agored a thryloyw, ac wedi'u seilio ar ddulliau safonol a defnydd o systemau cyffredin, sy'n lleihau'r cymhlethdod, y gost, y graddfeydd amser a'r gofynion ar gyfer cyflenwyr mewn modd priodol.

## 9. Blaenoriaeth Pump – Sicrhau bod gan Staff Sgiliau ac Adnoddau Digonol

Ceir rhai camau penodol i gefnogi'r flaenoriaeth hon o fewn y cynllun gwella caffael, a rhestrir y prif rai isod, ynghyd â'r canlyniadau a ddymunir.

Camau gweithredu er mwyn gwella


- Rhoi ailstrwythuriad y drefn gaffael ganolog ar waith.
- Sicrhau bod bylchau o ran hyfforddiant yn cael eu nodi a bod hyfforddiant a chymorth priodol ar gael.
- Sicrhau bod staff yn gyfarwydd â deddfwriaeth y sector cyhoeddus.
- Sicrhau canlyniadau positif yn gyson mewn perthynas â busnesau bach a buddiannau cymunedol, drwy roi'r polisi ar waith mewn modd gweladwy.
- Cydweithio â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus i rannu adnoddau ac arbenigedd.

Canlyniad

Bydd gwariant caffael yn amodol ar lefel briodol o ymglymiad a dylanwad gweithwyr proffesiynol, sydd â'r holl sgiliau ac adnoddau angenrheidiol i reoli contractau'n effeithiol.

## 10. Buddiannau Gweithredu’r Strategaeth

Sefydlodd Llywodraeth Cymru gontract gydag ymgynghorwyr annibynnol (KPMG) i gynnal gwiriadau ffitrwydd caffael ymhlith awdurdodau lleol a sefydliadau eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y gwiriad ffitrwydd yn canolbwyntio ar 8 o feysydd allweddol. Rhestrir y rhain yn y tabl canlynol, ynghyd â chanlyniadau Cyngor Sir Ceredigion yn y meysydd dan sylw.




● Cyfartaledd Awdurdodau Cymru ● Aeddfedrwydd Cyfartalog Ceredigion

Cafodd y Cyngor sgôr cyffredinol o 70 o farciau yn y gwiriad ffitrwydd, a llwyddwyd i wella ar hynny’n gyson dros amser trwy ddatblygu cynllun gwella caffael yn seiliedig ar ganlyniadau’r gwiriad. Mae’r cynllun busnes caffael lefel 2 yn cyd-fynd â’r cynllun gwella, ac mae’r manylion cynnydd a geir yn yr adroddiadau chwarterol wedi’u cynnwys yn y cynllun.

Bydd y strategaeth hon yn ymwreiddio’r dull parhaus o wella’r drefn gaffael ymhellach, drwy roi ffocws strategol ar brif feysydd y gwiriad ffitrwydd.